**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Gorffennaf y 10fed 2023 yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, Tim Rosa, Dafydd Williams a Wenda Williams
**Yn y gadair:** Y Cynghorydd RJ Williams
**Roedd Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llŷn yn bresennol ar ddechrau y cyfarfod i drafod prosiect Awyr Dywyll:** Eglurodd fod bwriad i roi cais am ddynodiad Awyr Dywyll i ardal Cyngor Cymuned Aberdaron gan mai dyma yr ardal sydd fwyaf addas ar gyfer dynodiad. Nododd bod Ynys Enlli eisioes wedi derbyn dynodiad Awyr Dywyll a bod manteision yn dod yn sgîl y dynodiad. Mae denu ymwelwyr yn y gaeaf, y tu allan i'r tymor twristiaeth yn fantais benodol.
Eglurodd mai pwrpas ei ymweliad â'r Cyngor ydi i egluro y bwriadac er mwyn i'r aelodau gael cyfle i ysyried ac fe fyddai y Cyngor Sir yn paratoi ac yn talu costau y cais.
Ychwanegodd na fyddai gorfodaeth ar neb leihau goleuadau, ac mai hyrwyddo arfer da ydi'r nôd.
Roedd yr aelodau yn teimlo fod y cynllun yn un y dylid ei gefnogi, ac yn croesawu y bwriad i gyflwyno cais ar gyfer dynodiad i'r ardal.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb </u>:** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones a datganodd y Cyng Jaci Jones ddiddordeb yng nghais cynllunio C23/0191/30/LL.
**2)<u>Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Estynwyd cydymdeimlad gyda'r Cyng Gwenllian Hughes Jones a'i theulu yn dilyn y brofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar. Llongyfarchwyd y Cyng Dafydd Williams ar ei briodas. Dymunwyd yn dda a diolchwyd i'r clerc, Iwan Hughes sydd yn rhoi y gorau i'r swydd.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Fehefin 2023</u>:** Cynnigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**5) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
a)Tyllau ger Ty'n Llidiart, Y Rhiw: Mae'r tyllau wedi derbyn sylw.
b)Croesffordd Penygroeslon: Mae'r gwaith barbio wedi ei wneud
c)Arwydd Felin Uchaf ger Capel Saron: Mae'r mater yma yn derbyn sylw.
**ii)Mynedfa 'The Wilds' Aberdaron:** Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Gynllunio yn egluro fof achos llys yn cael ei ddwyn yn erbyn perchennog yr eiddo.
**iii)Materion yr Eglwys Newydd:** Eglurwyd fod yr adroddiad tendro wedi cael ei anfon ymlaen i'r cwmni yswyriant.
Derbyniwyd llythyr gan Gwenda Parry, Cartref, Aberdaron yn mynegi pryder am gyflwr yr eglwys: Penderfynwyd ysgrifennu ati yn egluro yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn ceisio ariannu y gwaith trwsio.
Derbyniwyd adroddiad yn dilyn archwiliad o'r fynwent gan y Cadeirydd a'r Cyng Wil Evans, mae'r fynwent yn daclus iawn ond nodwyd fod rhai arwyddion ger y brif giat yn anodd i'w darllen erbyn hyn , penderfynwyd peidio a'u hadnewyddu ar hyn o bryd gan mai y giat isaf sydd yn cael ei defnyddio. Nid oedd sicrwydd os oedd arwydd yn dweud wrth bobl am beidio defnyddio y gamfa i'r fynwent.
Nodwyd fod angen unioni y giat isaf ac fe gytunodd y Cyng Wenda Williams ofyn i John Jones, Cyndyn wneud y gwaith. Mae y Cyng Tim Rosa am fynd i'r fynwent i gael golwg ar y wal gerrig ar y terfyn rhwng y fynwent a'r Coachhouse er mwyn gweld faint o waith trwsio sydd arni.
**iv)Cae chwarae:** Nid oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn bresennol er mwyn rhoi adroddiad.
**6)<u> Gohebiaethau</u>**
i)Rhaglen hyfforddiant Unllais Cymru: Mae ebost wedi ei gylchredeg i'r aelodau
**7) <u>Cynllunio</u>**
C23/0191/30/LL Cais llawn i godi adeilad deulawr gyda 4 uned masnachol ar y llawr waelod yn cynnwys 2 siop (defnydd A1) , bragdy /distyllfa (defnydd B2) a golchdy (defnydd unigryw)

a 2 fflat a swyddfa ar y llawr cyntaf ynghyd a chreu mannu parcio cysylltiol - Y Sied Ddu ger Melin Daron: Penderfynwyd gwrthwynebu y cais ar y sail ei fod yn or-ddatblygiad ac nad yw yn gweddu gyda cymeriad y pentref.

**8)Ariannol**

i)Archwiliad Blynyddol: Adroddwyd fod y ffurflen flynyddol a'r dogfennau atodol wedi ei cyflwyno i'r archwiliwr allannol. Mae Cyngor Aberdaron yn derbyn archwiliad llawn eleni.

**Taliadau**

Iwan Hughes: £260 (cyflog)
HMRC (Paye): £65
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Ffioedd HSBC: £5
GCR Ltd: £96 (trwsio CCTV y cae chwarae)

**Derbyniadau**

Dim wedi eu derbyn

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Derbyniwyd cwyn fod plant yn mynd i chwarae yn yr Hen Reithordy, sydd wedi ei adael yn wag. Penderfynwyd anfon at y perchennog i'w hysbysu.

ii)Mae pryder am or-yrru o fewn y cyfyngiad '40' yn Rhoshirwaun. Penderfynwyd anfon y gwyn at Gyngor Gwynedd

iii)Mae coeden yn tyfu gan rwystro gweledigad modurwyd i gyfeiriad eglwys Llanfaelrhys yn Nant y Gadwen, Y Rhiw. Nid yw'r aelodau yn siwr pwy yw perchennog y tir lle mae'r goeden.

iv)Mae pryder yn parhau ynghylch y system ffôn yn Meddygfa Rhydbach.

v)Atgoffwyd fod angen trefnu hyfforddiant defibs yn Aberdaron, nid yw Tomos Hughes, swyddog y Gwasanaeth Ambiwlans wedi ateb ymholiad y Cyngor.

vi)Mae pryder fod modurwyr yn troi i faes parcio Henfaes o gyfeiriad 'Spar' heb stopio. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am arwydd.

viii)Nid yw Cyngor Gwynedd wedi rhoi cerrig mân yn y fynedfa o faes parcio Henfaes i'r traeth.

ix)Mae cerrig wedi syrthio o'r wal sydd yn amgylchynu mynwent Eglwys Aelrhiw i'r ffordd eto.

**10)Swydd y clerc:** Yn dilyn hysbysebu, mae un person wedi holi am fwy o wybodaeth ond heb ddatgan ei bod am ymgeisio am y swydd, ond mae wedi addo ystyried a gadael i'r clerc wybod ei phenderfyniad.

Gan nad oes ymgeisydd ar gyfer y swydd, cytunodd y Clerc presennol i ofalu am waith y Cyngor hyd ddiwedd Awst ('roedd wedi datgan ei fod yn rhoi y gorau i'r dyletswyddau ar y 31ain o Orffennaf).

**Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, Medi 11eg yng Neuadd Y Rhiw am 7.30yh.**